

Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - Cynllun hyfforddi 2017-2021	
Enw Sefydliad	Bwrdd Iechyd PABM
Cyswllt	Katharine Thomas, Tîm Diogelu Corfforaethol. Katharine.M.Thomas@wales.nhs.uk
Arweinydd	Virginia Hewitt, Pennaeth Diogelu Corfforaethol
Grŵp Llywio	Pwyllgor Diogelu BIPABM
Consortia Hyfforddi Rhanbarthol	Gwasanaethau Cynorthwyo Arbenigol Trydydd Sector Cymdogol: CALAN DVS, Hafan Cymru, Port Talbot and Afan Women's Aid, Swansea Women's Aid
Dadansoddiad Anghenion	Wedi'i gwblhau

	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Grŵp 1	9996 (65%)	Staff newydd eu cyflogi	Staff newydd eu cyflogi	Staff newydd eu cyflogi	Staff newydd eu cyflogi
Grŵp 2	840 (13%)	1,320 (20%)	1,320 (20%)	1,320 (20%)	1,320 (20%)
Grŵp 3	48 (0.74)	80 (1.2%)	80 (1.2%)	80 (1.2%)	80 (1.2%)
Grŵp 4					
Grŵp 5					
Grŵp 6	13 (52%)	12 (48%)	Apwyntiadau newydd	Apwyntiadau newydd	

Mae angen i 14,093 o staff i gwblhau hyfforddiant grŵp 1. Mae 4097 (35%) o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant grŵp 1 yn barod. Dylai'r holl staff sydd newydd eu penodi/ y staff sy'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth neu absenoldeb oherwydd salwch tymor hir gwblhau hyfforddiant Grŵp 1 fel rhan o'u rhaglen cynefino/dychwelyd i'r gwaith.

Mae chwe Uned Gyflenwi Gwasanaeth ar gael: Singleton, Treforys, Tywysoges Cymru, Castell-nedd Port Talbot, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Gofal Sylfaenol. Fel safle mabwysiadu cynnar, mae hyfforddiant Grŵp 2 wedi dechrau mewn ardaloedd clinigol ble mae pobl yn medru adnabod neu ddatgelu fod trais neu gam-drin domestig yn digwydd, h.y. Adrannau Brys Treforys a Thywysoges Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, Ymwelwyr Iechyd, Gynaecoleg, Newydd-anedig ac Iechyd Rhywiol. Mae 850 (42%) o'r staff o fewn yr ardaloedd peilot wedi cwblhau hyfforddiant Grŵp 2 ers Mai 2016. Mae'r ardaloedd blaenoriaeth a adnabuwyd drwy arfer clinigol a "dysgu gwersi" yn cynnwys Gwasanaethau'r Genau a'r Wryneb, Gofal y Fron a Llosgiadau a Llawfeddygaeth Plastig, i'w weithredu ar draws y Bwrdd Iechyd. Blaenoriaeth arall ar gyfer hyfforddiant Grŵp 2 yw Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Chamddefnyddio Sylweddau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae hyfforddiant Grŵp 2 yn dilyn model hyfforddiant cyd-gyflenwi, h.y. hyfforddwr o'r Bwrdd Iechyd a hyfforddwr o'r Gwasanaethau Cymorth Arbenigol Trydydd Sector. Mae'r nifer o sesiynau hyfforddiant a ddarperir yn dibynnu ar y nifer o hyfforddwyr sydd ar gael, y nifer o staff y gellir eu ...

O fewn yr ardaloedd blaenoriaeth, mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn argymhell y dylai 10% o nifer y staff a hyfforddwyd yn Grŵp 2 dderbyn hyfforddiant Grŵp 3, h.y. Adrannau Brys, Gwasanaethau Mamolaeth, Ymwelwyr Iechyd, Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Cham-drin Sylweddau. Mae hyfforddiant Grŵp 3 yn dilyn yr un model hyfforddi cyflenwi a Grŵp 3, h.y. hyfforddwr Bwrdd Iechyd a hyfforddwr o'r Gwasanaethau Cymorth Arbenigol Trydydd Sector. Argymhellir bydd hyfforddiant Grŵp 3 yn cael ei ddarparu bob dau fis (hyfforddiant un dydd) gydag 16 o staff yn mynychu pob sesiwn hyfforddi gan ddechrau ym mis Medi 2017. Adolygir y nifer o sesiynau hyfforddi sydd ei angen yn rheolaidd a'i addasu yn unol â gofynion hyfforddi "Gofyn a Gweithredu" yr Unedau Gweithredu Gwasanaethau, yr adnoddau hyfforddi a faint o absenoldeb hyfforddi sydd gan y staff ar ôl.

Perthnasol i Wasanaethau Cymorth Arbenigol VAWDASV

Perthnasol i Wasanaethau Cymorth Arbenigol VAWDASV

Anelir Grŵp 6 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol at Arweinyddiaeth Uwch gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth sy'n gyfres o fideos byr sy'n para pedair i wyth munud, a gellir eu gweld drwy YouTube neu'r ESR.